

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 05.05.2015**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cyngorwyr ; Elfed Davies, Arwel Nicholas, Pamela Jones, Mike Poston, Wyn Thomas, Dylan Jones, Danny Davies, Cyngorwr Sir, Irfon Jones.**  
**Ymddiheuriadau: Carolyn Smethurst**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Pendefyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
	Y Cadeirydd newydd, DD, yn diolch I'r cyn Gadeirydd, ED, am ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cytunwyd eu bod yn gywir, AN yn cynnig, WT yn eilio	
Materion yn Codi	<p><b>Clawdd y Cae Chwarae:</b> AN, PJ a MP wedi cyfarfod gyda Rosie Carmichael wnaeth gynnig, symud y clawdd mewn I'r Cae; I'w wneud yn yr Hydref. MP yn dweud fod Rosie Carmichael wedi awgrymu trafod y mater gyda Adran Priffyrdd. AN yn gofyn a fyddde'r Cyngor yn fodlon rhannu'r gost gyda'r Pwyllgor Lles? DD yn gofyn I'r Pwyllgor Lles greu cynllun</p> <p><b>Priffyrdd:</b> John McEvoy am gyfarfod gyda'r Cyngorwyr ar y 18fed neu'r 19eg o Fai, I drafod camau arafu trafndiaeth. Clerc I drafod dyddiad a rhoi gwybod I'r Cyngorwyr.</p> <p><b>Costau Etholiad:</b> Clerc wedi holi am esboniad oddi wrth y Sir; prif gost yr Etholiad oedd danfon allan y Bleidlais Post i 116 person. ED yn cynnig talu'r gost a PJ yn eilio.</p> <p><b>Papur Gwyn Llywodraeth Cymru:</b> Clerc wedi mynychu cyfarfod a drefnwyd gan Un Llais Cymru; os bydd newidiadau Llywodraeth Cymru i ddemocratiaeth lleol yn cael ei gweithredu, ni fydd Cyngor Cymuned Llanpumsaint yn bodoli mwyach, dim ond dau Gynghorydd yn eistedd ar Banel Ardal.</p> <p><b>Polisi Iaith:</b> Clerc i ddsbarthu Polisi drafft i bawb er mwyn ei drafod yn y cyfarfod nesaf.</p> <p><b>Cofnodion ar y Wè:</b> Jeremy Clulow wedi diwygio'r Dudalen Wè ac mae'r Cofnodion bellach yn ymddangos.</p>	
Gohebiaeth	<p><b>Llythyr Mr Tony Brandon:</b> bron iddo gael ei fwrw lawr gan gerbyd wrth iddo ef a'i wraig fynd a'r ci bach am dro. Y Cyngorwyr yn falch o ddeall na chafodd Mr Brandon niwed. AN yn dweud fod y Sir wedi cynnig gosod palmant ar hyd yr heol o Font Newydd I fyny tuag at Rhiw Cwppers rhai blynyddoedd yn ôl ond rhwystrwyd gweithredu'r cynllun oherwydd fod y tir feddianwr yn anfodlon torri lawr y dderwen fawr. Wnaeth y Cyngorwyr annog cerddwyr I ddefnyddio'r heol yn unol â chyngor y Côd Priffyrdd sef, gwynebu'r</p>	

	trafnidiaeth, a cherdded mewn rhes unigol. <b>Llythyr Derick Lock:</b> Tymor ED ar Bwyllgor y Neuadd yn gorffen; a fydde'r Cyngor yn fodlon cynnig iddo eistedd am dymor arall? WT yn cynnig ei fod, a DJ yn eilio	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<b>Cyfieithu</b> – Trywydd - £62.10. Cytunwyd ei dalu; cynnigydd WT, eilydd, ED	
UFA	<b>AN</b> – Ficerdy; wedi cychwyn y gwaith o adeiladu tŷ ac wedi torri hanner y clawdd yn isel. Amodau a osodwyd gan Gyngor Cymuned Llanpumsaint oedd rhaid creu mynedfa newydd a gosod palmant cyn cychwyn. Clerc I holi'r Adran Gynllunio ynglyn a'r cynllun <b>PJ</b> – Gorr yrru; beth am gyfeirio at blant ar yr arwyddion? Cerrig yn rhydd ar Bont Newydd <b>MP</b> – y diffeithwch gerllaw Bont Pembompren; pwy sydd ei berchen? Hyfryd fyddai ei dacluso a gosod llwybyr a mainc yno. Trafodaeth ar feddiant y tir; naill ai Pandy neu Pentremawr. Clerc I holi Mrs Howells, Pandy am dystiolaeth <b>ED</b> – Angen bin sbwriel ar y Cae Chwarae. IJ yn awgrymu l'r Clerc ofyn am bin gyda'r Cynghorydd Jim Jones. <b>WT</b> – Dim <b>DJ</b> – Dim <b>ED</b> – Dim <b>DD</b> – Dim	
Cyfarfod yn gorffen	21.15	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysagriennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....